Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914

# GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (CAERFYRDDIN) (GWAHARDDIAD ARBROFOL AR STOPIO Y TU ALLAN I YSGOLION) 2025

---

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor"), gan ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 9 a 10 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984"), fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogol eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

## RHAN 1
## CYFEIRIADAU A DEHONGLIAD

1. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y 5ed o Ionawr Dwy Fil a Chwech ar Hugain a gellir cyfeirio ato fel "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) (Gwaharddiad Arbrofol ar Stopio y Tu Allan i Ysgolion) 2025".

2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn ei gwneud yn ofynnol fel arall, yr ystyr a bennir iddynt trwy hyn sydd gan yr ymadroddion canlynol:

   Mae i "**Ambiwlans**" yr un ystyr ag sydd iddo yn Atodlen 2 o Ddeddf Trethu a Chofrestru Cerbydau 1994.

   Ystyr "**Cerbyd**" yw cerbyd modur ac mae i "cerbyd modur" yr un ystyr ag yn Adran 136 o Ddeddf 1984.

   Mae "**Cwnstabl yn ei Lifrai**" yn cynnwys Swyddog Gorfodi Sifil;

   Ystyr "**Deddfiad**" yw unrhyw ddeddfiad (boed yn gyffredinol, cyhoeddus neu leol) ac mae'n cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu offeryn arall sydd mewn grym yn

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914

rhinwedd Deddfiad, a dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw Ddeddfiad fel cyfeiriad at y Deddfiad hwnnw fel y cafodd ei ddiwygio, ei gymhwyso, ei gyfnerthu, neu ei ail-ddeddfu gan unrhyw Ddeddfiad dilynol, neu sydd mewn grym yn rhinwedd hynny.

Ystyr "**Hysbysiad Tâl Cosb**" yw hysbysiad a roddir neu a gyflwynir gan Swyddog Gorfodi Sifil neu drwy'r post, yn unol â darpariaethau Adran 78 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 a Rheoliadau 9 a 10 o Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

Ystyr "**Perchennog**", mewn perthynas â Cherbyd, yw'r person sy'n cadw'r Cerbyd, ac wrth benderfynu pwy oedd perchennog unrhyw Gerbyd ar unrhyw adeg, tybir mai'r Perchennog oedd y person yr oedd y cerbyd wedi'i gofrestru o dan ei enw bryd hynny o dan Ddeddf Trethu a Chofrestru Cerbydau 1994.

Mae i "**Rhwydwaith Cyfathrebu Electronig**" yr un ystyr ag sydd iddo yn Adran 32 o Ddeddf Cyfathrebu 2003.

Ystyr "**Swyddog Gorfodi Sifil**" yw person, fel y'i diffinnir yn Adran 76 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, a awdurdodir gan neu ar ran y Cyngor i gymryd camau gorfodi o ran tramgwyddau traffig ffyrdd (fel y'u diffinnir yn Adran 73 o'r Ddeddf dan sylw).

Ystyr "**Tâl Cosb**" a "**Tâl Cosb Gostyngol**" yw tâl sydd wedi'i bennu gan y Cyngor yn unol â'r darpariaethau yn Rhan 3 o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004, gyda sêl bendith Gweinidogion Cymru, y mae'n rhaid ei dalu i'r Cyngor cyn pen wyth diwrnod ar hugain sy'n cychwyn ar ddyddiad yr Hysbysiad Tâl Cosb, neu

(a) pedwar diwrnod ar ddeg, yn achos Tâl Cosb Gostyngol lle cyflwynir yr Hysbysiad Tâl Cosb gan Swyddog Gorfodi Sifil; neu

(b) un diwrnod ar hugain, yn achos Tâl Cosb Gostyngol lle cyflwynir yr Hysbysiad Tâl Cosb drwy'r post.

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914

3. Oni bai lle nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen rifedig yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

4. Bydd y gwaharddiadau a bennir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegu at unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a bennwyd gan unrhyw rheoliadau neu orchmynion a wnaed dan Ddeddf 1984, neu y mae eu heffaith fel pe baent wedi eu gwneud dan Ddeddf 1984, neu a wnaed gan/dan unrhyw Ddeddfiad arall, ac nid yn amharu arnynt.

5. Ac eithrio lle nodir fel arall, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at:

(a) y Gorchymyn hwn neu orchymyn arall yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y Gorchymyn hwn neu'r cyfryw orchymyn arall, fel y gallai'r cyfryw fod wedi ei addasu, ei ddiwygio neu ei ategu neu fel y gallai hynny ddigwydd o bryd i'w gilydd;

(b) statud neu rheoliad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y cyfryw statud neu'r cyfryw rheoliadau fel y gallai'r cyfryw fod wedi ei diwygio/eu diwygio neu ei hailddeddfu/eu hailddeddfu neu fel y gallai hynny ddigwydd o bryd i'w gilydd.

## RHAN II

## GWAHARDD STOPIO

6. Ac eithrio fel y nodir yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn, ni chaniateir i neb, heblaw o dan gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd Cwnstabl Heddlu yn ei Lifrai, achosi na chaniatáu i Gerbyd stopio neu aros yn llonydd ar unrhyw un o'r darnau ffyrdd neu ar ochrau'r ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, ac yn agos at neu'n gyfagos i'r ysgolion a nodir yn yr un Atodlen, rhwng 8.00 a.m. a 5.00 p.m. ar unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn a dydd Sul.

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914

7. Ni chaiff dim yn Erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn beri ei fod yn anghyfreithlon i achosi neu i ganiatáu i unrhyw Gerbyd stopio neu aros yn llonydd ar unrhyw un o'r darnau ffyrdd neu ar ochrau'r ffyrdd a bennir ynddynt, cyhyd ag y bo angen i alluogi:

(a) Cerbyd gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, os na ellir defnyddio'r Cerbyd yn gyfleus at ddibenion o'r fath ar unrhyw heol arall:
   (i) gwneud gwaith adeiladu, diwydiannol, neu ddymchwel;
   (ii) gwaredu unrhyw rwystrau i draffig;
   (iii) cynnal a chadw, gwella neu ail-greu'r darnau ffyrdd neu'r ochrau ffyrdd dan sylw; ac
   (iv) gosod, codi, newid neu atgyweirio yn neu ar dir ger y darnau neu'r ochrau ffyrdd dan sylw, unrhyw garthffos neu unrhyw brif gyflenwad, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr, neu drydan, neu unrhyw Rwydwaith Cyfathrebu Electronig;

(b) Cerbyd gael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaeth gan awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir defnyddio'r Cerbyd yn gyfleus at ddibenion o'r fath ar unrhyw heol arall;

(c) Cerbyd gael ei ddefnyddio at ddibenion brigâd dân, Ambiwlans neu'r heddlu;

(d) mewn unrhyw achos pan fo'r person sy'n rheoli'r Cerbyd;
   (i) yn gorfod stopio yn ôl y gyfraith;
   (ii) yn gorfod stopio er mwyn atal damwain; neu
   (iii) yn cael ei atal rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth;

(e) ymddygiad arferol mewn cysylltiad â phriodas neu i ffurfio rhes o gynhebryngwyr mewn angladd.

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914

## RHAN III

## MYND YN GROES I'R GORCHYMYN

8. Os yw Cerbyd wedi stopio ar unrhyw ddarn ffordd neu ochr ffordd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn, bydd Tâl Cosb yn daladwy.

9. Yn achos Cerbyd lle y mae Tâl Cosb yn daladwy, gellir rhoi Hysbysiad Tâl Cosb sy'n dangos y wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 o Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013"), yn unol â Rheoliadau 9 a 10 o Rheoliadau 2013.

10. Yn achos Hysbysiad Tâl Cosb a osodwyd ar Gerbyd yn unol â Rheoliad 9 o Rheoliadau 2013, ni chaniateir i neb ei symud nac ymyrryd ag ef heblaw gan y canlynol neu â'u hawdurdod:
   (a) Perchennog y Cerbyd neu rywun sydd â gofal y Cerbyd; neu
   (b) y Cyngor neu awdurdod gorfodi arall.

11. Mae'n rhaid i Berchennog y Cerbyd y mae'r Tâl Cosb wedi ei gyflwyno mewn perthynas ag ef dalu'r Tâl Cosb i'r Cyngor:
   (a) naill ai drwy siec neu archeb bost a gaiff ei ddosbarthu neu ei hanfon drwy'r post er mwyn cyrraedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol y Cyngor cyn pen wyth diwrnod ar hugain ar ôl rhoi'r Tâl Cosb; neu
   (b) yn bersonol drwy siec, archeb bost, arian parod, carden gredyd neu garden ddebyd yn unrhyw un o swyddfeydd y Cyngor sy'n derbyn taliadau o'r fath; neu
   (c) fel y dangosir ar yr Hysbysiad Tâl Cosb, gan wneud hynny heb fod yn hwyrach na'r hyn a enwyd uchod.

12. Os telir y Tâl Cosb a roddir yn unol â Rheoliad 9 o Rheoliadau 2013 cyn pen pedwar diwrnod ar ddeg, sy'n dechrau ar ddyddiad yr Hysbysiad Tâl Cosb, bydd swm y Tâl Cosb yn cael ei leihau'n unol â'r gyfran benodedig.

13. Os telir y Tâl Cosb a roddir yn unol â Rheoliad 10 o Rheoliadau 2013 cyn pen un diwrnod ar hugain, sy'n dechrau ar ddyddiad yr Hysbysiad Tâl Cosb, bydd swm y Tâl Cosb yn cael ei leihau'n unol â'r gyfran benodedig.

14. Os na fydd y Perchennog yn talu'r Tâl Cosb cyn pen cyfnod o wyth diwrnod ar hugain, gan ddechrau gyda dyddiad yr Hysbysiad Tâl Cosb, gellir cyflwyno Hysbysiad i'r Perchennog (y tybir ei fod yn cynnwys Hysbysiad Tâl Cosb a roddir o dan Rheoliad 10 o Rheoliadau 2013) ac os na thelir y tâl cyn pen dau ddeg wyth diwrnod arall, gellir ei gynyddu hanner cant y cant ar ôl cyflwyno tystysgrif tâl, yn unol â Rheoliad 20 o Rheoliadau 2013.

15. Gall methu â thalu'n barhaus arwain at farn yn y Llys Sirol yn erbyn y Perchennog i alluogi'r Cyngor i adennill taliadau sy'n ddyledus, yn unol â Rheoliad 21 o Rheoliadau 2013.

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN )

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )

ar y ddogfen hon )

ar y 23ain diwrnod o Ragfyr 2025 )

19511

Ger fy mron i,

Signed by:

Steven P Murphy

6947BF055CF64B2...

..........................................................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**


Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914

# YR ATODLEN

**GWAHARDD STOPIO (Marciau 'Ysgol - Cadwch yn Glir')**
**rhwng 8.00 a.m. a 5.00 p.m. ar unrhyw ddydd**
**heblaw dydd Sadwrn a dydd Sul**

| 1<br>Ardal | 2<br>Enw/Disgrifiad o'r Ffordd | 3<br>Cyfeirnod Map |
|---|---|---|
| Caerfyrddin | Lôn Penymorfa<br>(Ysgol Gynradd Llangynnwr) | BR140 |
| Caerfyrddin | Ffordd y Coleg<br>(Ysgol Gynradd Eglwysig y Model) | BP136 |
| Caerfyrddin | Heol Llansteffan<br>(Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth) | BP142 a BP143 |
| Caerfyrddin | Heol Llansteffan<br>(Ysgol Rhydygors) | BP144 |
| Caerfyrddin | Heol Salem<br>(Ysgol Gynradd Tre Ioan) | BO140 |
| Caerfyrddin | Waun Dew<br>(Ysgol Gynradd Parc Waundew) | BS136 |

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914




**Cyngor Sir Gâr**
**Carmarthenshire County Council**
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | BO140 |
| Statws / Status | ARFAETH |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

BO139
BN140

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

## GORCHYMYN / ORDER:

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Caerfyrddin) (Arbrofol) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Carmarthen) (Experimental) Order 2025


(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

N W E S

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914




| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Gâr<br>Carmarthenshire County Council | **Cyngor Sir Gâr**<br>**Carmarthenshire County Council**<br>Parc Myrddin,<br>Waun Dew / Richmond Terrace,<br>Caerfyrddin / Carmarthen<br>SA31 1HQ |
| Cyf. Teil / Tile ref. | BP136 |
| Statws / Status | ARFAETH |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

BO136 BQ136 BP137

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

## GORCHYMYN / ORDER:

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Caerfyrddin) (Arbrofol) 2025


The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Carmarthen) (Experimental) Order 2025

(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914




**Cyngor Sir Gâr**
**Carmarthenshire County Council**
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | BP142 |
| Statws / Status | ARFAETH |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

BQ142

BP143

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

## GORCHYMYN / ORDER:

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Caerfyrddin) (Arbrofol) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Carmarthen) (Experimental) Order 2025


(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

N W E S

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | BP143 |
| Statws / Status | ARFAETH |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

BP142

BP144

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

## GORCHYMYN / ORDER:

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Caerfyrddin) (Arbrofol) 2025


The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Carmarthen) (Experimental) Order 2025

(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914




| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council | **Cyngor Sir Gâr** **Carmarthenshire County Council** Parc Myrddin, Waun Dew / Richmond Terrace, Caerfyrddin / Carmarthen SA31 1HQ |

| | | |
|---|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | BP144 | BP143 |
| Statws / Status | ARFAETH | |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 | |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | | **CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS ADJACENT TILE REFERENCES** |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 | |

**GORCHYMYN / ORDER:**

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Caerfyrddin) (Arbrofol) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Carmarthen) (Experimental) Order 2025


(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm

N W E S

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyngor Sir Gâr**
**Carmarthenshire County Council**
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | BR140 |
| Statws / Status | ARFAETH |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

BR139

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

**GORCHYMYN / ORDER:**

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Caerfyrddin) (Arbrofol) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Carmarthen) (Experimental) Order 2025


(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

N W E S

Docusign Envelope ID: 878216D9-3318-4BD7-BC08-4E97E4724914




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyngor Sir Gâr**
**Carmarthenshire County Council**
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | BS136 |
| Statws / Status | ARFAETH |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

BS135
BR136
BS137

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

**GORCHYMYN / ORDER:**

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Caerfyrddin) (Arbrofol) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Carmarthen) (Experimental) Order 2025

(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

N
W E
S